**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (MINFFORDD ROAD, LLANFIHANGEL-YN-NHYWYN,LLANFAIR-YN-NEUBWLL, CAERGEILIOG, CAERGYBI) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 18 Ionawr 2024 o dan rif cyfeirnod FPL/2023/195 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Minffordd Road, Llanfihangel-yn-Nhywyn, Llanfair-yn-Neubwll, Caergeiliog, Caergybi) 2024 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Du Construction Ltd, Bloc F, Parc Busnes Penrhos, Caergybi, LL65 2FD, rhwng 8am a 4:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy ebost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu yn ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2055503.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 28 Hydref 2024 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (MINFFORDD ROAD, LLANFIHANGEL YN NHYWYN, LLANFAIR-YN-NEUBWLL, CAERGEILIOG, HOLYHEAD) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice and to improve the area of highway described in Schedule 2 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Isle of Anglesey County Council on 18 January 2024 with reference number FPL/2023/195 described in Schedule 3 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Minffordd Road, Llanfihangel yn Nhywyn, Llanfair-yn-Neubwll, Caergeiliog, Holyhead) Order 2024 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at Du Construction Ltd, Block F, Parc Busnes Penrhos, Holyhead, LL65 2FD, from 8 am to 4:30 pm Monday to Friday, or may be obtained free of charge by email to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference qA2055503.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 28 October 2024 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch,**

**wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

Darn trionglog ei siâp o briffordd ar y briffordd o'r enw Minffordd Road, Llanfihangel-yn-Nhywyn, Llanfair-yn-Neubwll, Caergeiliog, Caergybi, a leolir 56.16 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Dinam Road, sy'n 60 metr yn y man hiraf ac yn 12 metr yn y man lletaf, ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darnau o briffordd sydd i'w gwella**

Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd priffordd ar Minffordd Road, Llanfihangel-yn-Nhywyn, Llanfair-yn-Neubwll, Caergeiliog, Caergybi, a leolir 56.16 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Dinam Road, sy'n 72.11 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2.43 metr yn y man lletaf ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**
**Y Datblygiad**

Adeiladu 17 o anheddau fforddiadwy, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau, adeiladu ffordd ystad newydd ynghyd â thirweddu caled a meddal ar dir cyfagos i Minffordd Road, Llanfihangel-yn-Nhywyn, Llanfair-yn-Neubwll, Caergeiliog, Caergybi.

**Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**
**Lengths of highway to be stopped up**

A triangle shaped length of highway on the highway known as Minffordd Road, Llanfihangel yn Nhywyn, Llanfair-yn-Neubwll, Caergeiliog, Holyhead, located 56.16 metres north-east from the centre of its junction with Dinam Road, with a maximum length of, with a maximum length of 60 metres, a maximum width of 12 metres, and marked with zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**(All measurements are approximate)**
**Lengths of highway to be improved**

An irregular shaped length of highway footway on Minffordd Road, Llanfihangel yn Nhywyn, Llanfair-yn-Neubwll, Caergeiliog, Holyhead, located 56.16 metres north-east from the centre of its junction with Dinam Road, with a maximum length of 72.11 metres, a maximum width of 2.43 metres and marked with cross hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**
**The Development**

Construction of 17 affordable dwellings, construction of a new vehicular access, construction of new estate road together with hard and soft landscaping on land adjacent to Minffordd Road, Llanfihangel yn Nhywyn, Llanfair-yn-Neubwll, Caergeiliog, Holyhead.